

BETWS-Y-COED

Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth

Chambers Conservation Ltd

Argraffiad

Argraffiad: Fersiwn Terfynnol

Chambers Conservation Ltd
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif. 09787239
Cyfeiriad cofrestru: Studio 2, Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

Cynnwys

Y Rhan Gyntaf, Arfarniad Ardal Gadwraeth.

1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon
- 1.2 Golwg Gyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

4.0 Dadansoddiad Gofodol
- 4.1 Ffurf a Threfn
- 4.2 Golygfeydd Allweddol
- 4.3 Mannau Gleision a Choed

5.0 Cymeriad
- 5.1 Golwg Gyffredinol
- 5.2 Cymeriad Pensaernïol
- 5.3 Ardaloedd Cymeriad
- 5.4 Deunyddiau
- 5.5 Ffiniau
- 5.6 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill

6.0 Asedau Hanesyddol
- 6.1 Dynodedig
- 6.2 Annynodedig

7.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

8.0 Asedau Dynodedig Eraill

9.0 Bioamrywiaeth

Yr Ail Ran, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.

1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB
2.0 Deall y Materion
    2.1 Cyflwr
    2.2 Adeiladau mewn Perygl
3.0 Golwg Gyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.
4.0 Rheolaeth Gadarnhaol
    4.1 Asesiad o'r Ffiniau
    4.2 Diogelwch Deddfwriaeth
    4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
    4.4 Cynaliadwyedd
    4.5 Bioamrywiaeth
5.0 Ymgynghoriad



Y RHAN GYNTAF: GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH

1.0 Cyflwyniad

1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Dylid darllen y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd â'r ddogfen **Cyflwyno a Pholisi Cynllunio**, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol.Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg y Gwerthusiad, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad, a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth.

1.1.2 Yn ogystal â'r Cynllun Rheolaeth sy'n mynd gyda'r Gwerthusiad Ardal hwn, cafodd dogfen bellach **Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol**, ei pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, a rhoi cyngor ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a'r rhai o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

1.2 Golwg Gyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

1.2.1 Mae ffin yr Ardal Gadwraeth (gweler Ffig. 02) yn diffinio yn rhannol beth yw maint ardal yr astudiaeth, ond fe gynhwyswyd yr ardaloedd agosaf o gwmpas (yn cynnwys yr ardaloedd tirwedd cyfagos) er mwyn deall y cefndir ehangach a phennu a fyddai'n briodol gwneud newidiadau i'r ffin.

Lleoliad a Gosodiad

1.2.2 Saif pentref Betws-y-coed dair milltir i'r de o dref Llanrwst. Mae Betws tua chwe milltir i'r gogledd-orllewin o ffin Gwynedd, ac roedd yn hanesyddol yn Sir Gaernarfon.

1.2.3 Mae Betws-y-coed mewn lleoliad dramatig lle mae Afon Llugwy ac Afon Conwy'n cyfarfod, gyda llethrau bryniau serth oddi amgylch, wedi'u gorchuddio gan goedwigoedd trwchus, sy'n rhan o Goedwig Gwydir, coetir hynafol yn ymestyn o Drefriw i Benmachno.




01 Eglwys y Santes Fair ar draws y grîn.

1.2.4 Mae'r pentref hefyd yn ffin ddaearegol bwysig. Mae Afon Conwy'n dangos lle mae gwahaniad daearegol eglur, gyda litholegau Silwraidd, yn fras, tua'r dwyrain o ddyffryn Conwy, a rhai Ordoficaidd hŷn yn bennaf tua'r gorllewin. [1.]

1.2.5 Cafodd yr Ardal Gadwraeth ei dynodi yn 1974.

1 Smith, B. & Neville George, T. British Regional Geology – North Wales (Gwasg Ei Mawrhydi) 1961.



Ardal Gadwraeth Bresennol
1:5000 ar A4

02 Cynllun o'r Ardal Gadwraeth (© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

2.1.1 Yn yr Oesoedd Canol roedd yr anheddiad ym Metws-y-Coed wedi'i gyfyngu i'r ardal o amgylch yr Eglwys Sant Mihangel wreiddiol, lle credir yr oedd cymuned fynachaidd gynnar i ddechrau. Roedd anheddiad yn yr ardal o gwmpas Pont-y-pair ac, mae'n debyg, ffermydd gwasgaredig, yn bennaf yn nyffryn Conwy. Nid oes dealltwriaeth na chofnod arbennig o dda o'r anheddiad cynnar, ac mae hyn yn rhoi gwerth uchel o ran tystiolaeth i'r ardal, yn enwedig o ran yr adeiladau cynnar hynny.

2.1.2 Mae gosodiad y pentref yn y dirwedd yn hanfodol ar gyfer ei ddiddordeb arbennig. Mae'r newid yn eithriadol, o'r gweundir tua'r dwyrain, llawr y dyffryn tua'r gogledd ac i fyny dyffryn Afon Llugwy gyda'i ochrau coediog serth. Cafodd ei werthfawrogi gan ymwelwyr ers dyfodiad arlunwyr a theithwyr pictwrésg yma yn ddiweddar yn y 18fed ganrif. Mae'r cefndir yn rhan hanfodol i lawer o bwysigrwydd esthetig y pentref, ond yn arbennig o amlwg mewn rhai o'r golygfeydd allweddol. Fodd bynnag, yn wahanol i rai o bentrefi uwch Eryri, mae'r golygfeydd hyn yn tueddu i fod yn olygfeydd agosach tuag at lethrau coediog, sy'n gefndir i'r ffabrig adeiledig, yn hytrach na golygfeydd hirach tuag at fynyddoedd uchel. Mae gwerth esthetig y pentref yn cael ei wella gan y coed sbesimen sylweddol a'r dirwedd o oes Fictoria sydd wedi parhau tu mewn i'r pentref. Gellir darllen mwy amdanynt yn ddiweddarach yn y gwerthusiad, ond dyma enghreifftiau allweddol:

- Golygfeydd hir (o'r tu allan i'r ardal gadwraeth) tuag at Fetws, sy'n dangos y newid o'r gweundir, oedd gynt yn Sir Ddinbych, neu lawr y dyffryn wrth ochr Afon Conwy, i le mae'r mynyddoedd uchel yn dechrau. Hyn sy'n arwain at y disgrifiad o Fetws fel 'y porth i Eryri'.
- Golygfeydd ar draws maes y pentref tuag at y Royal Oak ac eglwys y Santes Fair, gyda'r bryn a Choed Gartheryr tu cefn.
- Golygfeydd ar draws Bont-y-pair ac Afon Llugwy tuag at yr adeiladau ar lan yr afon a'r bryniau tu hwnt.

2.1.3 Mae'r anheddiad presennol ym Metws-y-coed yn bentref gwyliau o oes Fictoria sydd wedi cael ei gadw'n eithriadol o dda, gyda chymeriad pensaernïol cryf a nodedig. Mae wedi cadw cyfran sylweddol o bensaernïaeth a manylion o ganol a diwedd y 19eg ganrif, ac mae yma hefyd arddull sy'n unigol mewn ffordd gynnil, wedi'i atgyfnerthu gan benseiri



03 Golygfa ar draws Afon Llugwy, tuag at y pentref a'r coetir tu cefn.



04 Golygfa wrth ddod tuag at Betws, gyda'r newid yn y dirwedd, Moel Siabod yn y cefndir.

diweddarach i greu cymeriad alpaidd nodedig. Mae'r prif elfennau'n cynnwys:

- Eglwys Sant Mihangel, gyda'i manylion syml, a'r cyferbyniad boddhaus a pherthynas weledol gyda'r bont grog o'r 20fed ganrif.
- Eglwys y Santes Fair, cyfansoddiad o ansawdd uchel iawn gyda chymysgedd nodedig o fanylion cain a deunyddiau cyferbyniol.
- Gwesty'r Royal Oak fel y gorau o'r gwestai o'r 19eg, ei stablau, y berthynas gyda'r afon a'r parc a natur wedi'i chadw'n dda, oll yn ffactorau pwysig.
- Y defnydd o fathau o garreg leol, sy'n debyg i'w gilydd ond gyda manylion mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol cynnil, gyda gwahanol drefn o resi, manylion cerrig nadd a defnydd o gerrig neu friciau cyferbyniol uwchben ffenestri, bandiau a manylion eraill.
- Yn gyffredinol, mae'r pentref wedi cadw manylion saernïaeth a gwaith haearn, ffenestri cortyn, ymylon bondo, canopïau, rheiliau a manylion eraill o'r 19eg ganrif.
- Y ffordd mae adeiladau wedi'u lleoli o gwmpas Pont-y-pair, sy'n adlewyrchu datblygiad cynnar y pentref a dylanwad Stad Gwydir.
- Bythynnod Banc Llugwy, sy'n dystiolaeth o Fetws cyn oes Fictoria, a'r patrymau cynharach o adeiladu.

2.1.4 Mae'r gwerth cymunedol yn bwysig i'r diddordeb arbennig, gan gynnnwys y lleol a'r cenedlaethol. Gellir gweld hynny'n amlwg yn y rhain:

- Dechreuodd y Betws modern fel cyrchfan i ymwelwyr, a dyma ei rôl bennaf y dyddiau hyn, ac o ganlyniad cadwyd llawer o adeiladau, gan barhau yn eu defnydd gwreiddiol. Mae hyn yn cynnwys Eglwys y Santes Fair a'r Neuadd Goffa.
- Rôl y pentref fel 'porth i Eryri' i lawer ac fel pwynt allweddol i roi synnwyr o le ac amser i gynulleidfa eang.



05 Eglwys Sant Mihangel o'r gogledd-ddwyrain (2021).



06 Betws modern, yr orsaf o'r 19eg ganrif a datblygiadau manwerthu diweddarach (2021).

3.0 Amserlen Hanesyddol

Cynhanes

3.1.1 Gellir gweld hanes manwl Betws-y-coed mewn ffynonellau eraill, a bwriedir i'r crynodeb isod ddim ond roi cefndir i'r gwerthusiad a'r asesiad o ddiddordeb arbennig.

3.1.2 Yng Nghapel Garmon, dau gilometr tua'r de-ddwyrain o'r pentref, mae gweddillion siambr gladdu Neolithig. Mae gweddillion eraill o gynhanes ar y tir uwch, uwchben dyffrynnoedd Conwy a Llugwy. Dim ond rywfaint o olion a gafwyd ar lawr y dyffryn, a gallai hynny fod o ganlyniad i ddatblygiad dwysach yn ddiweddarach.

3.1.3 Ger Capel Curig, fe sefydlwyd caer atodol Rufeinig (Bryn-y-Gefeiliau), ar safle ger yr afon yng Nghaer Llugwy. Mae'n debyg bod y ffordd Rufeinig oddi yno i Gaerhun wedi croesi Afon Llugwy. Credir bod hynny naill ai ar safle Pont y Mwynwyr (tua'r gorllewin o Bentre Du) neu ar safle'r Bont–y–pair bresennol.

Canol oesol

3.1.4 Yn yr Extent of Caernarfonshire o 1352, cofnodir trefgordd Bettws, oedd yn perthyn i dri gwely rhydd, sef Gwely John ap Iddon, Griffith ap Iddon a Ken ap Iddon. Cafodd ei awgrymu y sefydlwyd yr eglwys gan ddisgynyddion Iddon yn y 12fed ganrif a'i chysegru i Sant Mihangel. Mae North, y cymrir ei fod yn dyfynnu Pennant, yn cyfeirio at 'Bettws Wyrion Iddo, sef betws wyrion Iddon'. [2]

3.1.5 Mae Betws wedi bod yn fan bwysig i groesi'r afon ers adeg y Rhufeiniaid, ac ategir hyn gan fod pont sylweddol Pont-y-pair wedi cael ei hadeiladu yn ddiweddar yn y 15fed ganrif. Cofnodwyd gan Pennant, wrth gyfeirio at ysgrifau cynharach, yr adeiladwyd y bont gan Hywel Saer ac y bu ef farw yn ystod ei hadeiladu yn 1468.

Artistiaid y 18fed ganrif a thwristiaeth cynnar

3.1.6 Erbyn y 16eg ganrif, roedd Stad Gwydir o dan deulu Wynn yn tra-arglwyddiaethu ar yr ardal ac yn berchen ar lawer o'r tir o gwmpas Betws. Bu'r stad hon yn parhau'n berchen ar lawer o'r tir hyd at yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif.

3.1.7 Fodd bynnag, roedd twristiaid pictwrésg cynnar yn dechrau cyrraedd yn y 18fed ganrif, gan baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol y pentref. Fe baentiodd

[2] Hughes & North 'The Old Churches of Snowdonia' (1924).



07 Extract from the Tithe Map, showing the limited settlement, but broadly the current configuration of roads (1840)



08 Bettws-y-Coed, from an etching by engraved by W.Radclyffe after a picture by T.Creswick (from Roscoe's Wanderings in N Wales, 1836). Private Collection

Paul Sandby ddarlun o Bont-y-pair yn ystod ymweliad â Syr Watkin Williams Wynn yn 1771, gweler Ffigwr 10[3]. Fe gyhoeddwyd y rhain fel cyfres o acwatintau yn 1776, gan ddod â sylw ehangach i'r ardal. Daeth Pennant a'i arlunydd Moses Griffith ar ymweliad, hefyd yn 1776, ac fe baentiodd Griffith hefyd olygfa o Bont-y-pair.

3.1.8 Daeth mynediad yn haws gyda gwella'r ffyrdd yn ddiweddar yn y 18fed ganrif. Cafodd y ffordd trwy Bentrefoelas a Llanrwst ei gwyro tua'r gorllewin yn 1805, i redeg trwy Fetws a Chapel Curig.

3.1.9 Yn dilyn y Ddeddf Uno gydag Iwerddon yn 1801, roedd y Senedd yn bryderus am gyflwr gwael y cysylltiadau ffordd rhwng Llundain ac Iwerddon. Gofynnwyd i Thomas Telford wneud arolwg o sut gellid teithio trwy Ogledd Cymru, gyda golwg ar wneud gwelliannau. Rhoddwyd ei adroddiad i Arglwyddi'r Trysorlys yn Ebrill 1811. Daeth y gwaith a wnaed o ganlyniad i hynny â gwelliannau sylweddol i'r ffyrdd oedd yn bodoli trwy Fetws, yn cynnwys adeiladu Pont Waterloo, i fynd â'r ffordd newydd dros Afon Conwy, a'i chwblhau yn 1816.

3.1.10 Fe barhaodd Betws i fod yn ddim mwy na threflan fechan hyd at gryn dipyn i mewn i'r 19eg ganrif. Cyn belled ymlaen ag 1840, doedd y map degwm ddim ond yn dangos yr eglwys, adeilad cynharach gwesty'r Royal Oak, a rhai adeiladau tua'r gogledd-ddwyrain o Bont-y-pair, oedd efallai'n felin gynharach neu'r Hand Inn (gweler Ardaloedd Cymeriad). Mae hynny rywfaint yn wahanol i ysgythriad o 1818, sy'n dangos clwstwr bychan tua'r de o Bont-y-pair, efallai'n cynnwys capel cynnar (gweler ffigwr 09). Mae'r degwm hefyd yn dangos bod y tir yn parhau'n bennaf ym meddiant stad Gwydir ar yr adeg honno.

3.1.11 Daeth y peintiwr tirluniau Seisnig enwog David Cox i Fetws am y tro cyntaf yn 1844.[4] Daeth mor hoff o'r pentref nes treulio hafau ym Metws-y-coed am y 12 mlynedd nesaf, gan sefydlu'r gymuned Artistiaid cyntaf ym Mhrydain. Yn ystod y blynyddoedd ar ôl hynny, daeth cenhedlaeth newydd o artistiaid tirlun yno ato. Yn 1851 daeth H Clarence Whaite[5] yno o'i ganolfan arferol ym Manceinion, a chyfarfod George Popkin a dod yn gyfaill i James Whittaker. Mewn blynyddoedd dilynol, treuliodd artistiaid fel Thomas Collier,

[3] https://www.artfund.org/supporting-museums/art-weve-helped-buy?typeahead_artist=Paul+Sandby&artist=2886
[4] https://www.tate.org.uk/art/artists/david-cox-117
[5] https://artuk.org/discover/artists/whaite-henry-clarence-18281912



09 Afon Llugwy ym Mhont-y-Pair, ysgythriad Havell o un gwreiddiol gan Thomas Compton 1818. (Llyfrgell Genedlaethol Cymru trwy Wikimedia Commons)



10 Pont-y-pair, Paul Sandby, 1771. © Google Art Project

Canol y 19eg Ganrif, y Rheilffordd yn Cyrraedd

John Syer, Benjamin Williams Leader, Lawrence Coppard a George Harrison oll amser sylweddol yn y pentref. Fe barhaodd y gymuned Artistiaid tan y rhyfel byd cyntaf.

3.1.12 Hefyd yn 1844, fe gyhoeddodd Thomas Roscoe 'Wanderings and Excursions in North Wales' oedd yn cynnwys pennod ar Fetws-y-coed. Fe gynyddodd hyn fwy eto ar ymwybyddiaeth o'r ardal ac arwain at gynnydd sylweddol mewn ymwelwyr.

3.1.13 Cyrhaeddodd y rheilffordd yn 1868 a dechrau'r datblygiad sylweddol o'r pentref fel cyrchfan ymwelwyr. Adeiladwyd yr orsaf reilffordd yn yr un flwyddyn gan Owen Gethin Jones o Benmachno, a oedd yn adnabyddus fel bardd, awdur a hanesydd yn ogystal ag adeiladwr.

3.1.14 Crëwyd seilwaith sylweddol wedyn, i ddarparu ar gyfer y llif o ymwelwyr a'r gymuned a ddatblygodd i'w gwasanaethu. Yn ystod y cyfnod hwn, fe adeiladwyd ysgolion yn 1869 ac ail adeiladwyd dau gapel (Capel Tabernacl yn 1870 a Bryn Mawr yn 1872). Adeiladwyd eglwys y Santes Fair yn 1872-73 gan benseiri o Sir Gaerhirfryn, Paley ac Austin, gan fod yr eglwys gynharach yn rhy fychan ar gyfer yr ymwelwyr a'r boblogaeth gynyddol. [6]

3.1.15 Wedyn ymhen ychydig flynyddoedd daeth gwestai sylweddol, gwesty'r Royal Oak bresennol, y banc, gorsaf yr heddlu a'r Gwesty Waterloo wreiddiol. Erbyn 1844 roedd chwe gwesty trwyddedig, pum gwesty dirwest a 34 o dai llety. Cynyddodd y boblogaeth o 500 yn 1861 i tuag 800 yn 1881. [7]

3.1.16 Ar yr un adeg â'r cynnydd mewn twristiaeth, daeth cynnydd mewn gweithgaredd diwydiannol o gwmpas y pentref. Roedd mwyngloddio plwm wedi digwydd yn yr ardal ers adeg y Rhufeiniaid, a defnyddiodd stad Gwydir yr adnoddau ar eu tir hwy, gyda chloddio ym Mhenrallt ac Aberllyn (lle cloddiwyd mwyn sinc yn ogystal). Parhaodd mwyngloddio hyd at yr 1920au.

3.1.17 Roedd chwareli llechi hefyd yn ddiwydiant o bwys, gyda'r chwarel fwyaf yn Hafodlas yn cynhyrchu llechi a slabiau, ar ochr ddeheuol dyffryn Llugwy uwchben Pentre Du, tua'r gorllewin o Fetws. Bu'r chwarel yn gweithio hyd at



11 Eglwys y Santes Fair o'r gogledd-orllewin (2021).



12 Mairlys a'r Ferns, sy'n nodweddiadol o ddatblygiad canol y 19eg ganrif (2021).

6 Voelcker et.al. Buildings of Wales, Gwynedd, t.267.
7 (Voelcker, A & Robertson, A), Betws-y-coed Drafft Arfarniad Ardal Gadwraeth, 2012..

20fed Ganrif

yr 1930au cynnar ac mae olion sylweddol yn dal i'w gweld. [8] Sefydlwyd anheddiad bychan wrth droed yr inclein ar gyfer mwynwyr yn yr 1860au.

3.1.18 Roedd prinder pren yn ystod y rhyfel byd cyntaf, a bu gwaith cwympo coed sylweddol yn digwydd o amgylch y pentref. Wedyn cymerodd y comisiwn coedwigaeth reolaeth dros rannau sylweddol o'r ardal, gan blannu coed conwydd yn bennaf. Mae gwaith coedwigaeth yn parhau hyd heddiw, ac wedi cael effaith sylweddol ar gymeriad modern y dirwedd.

3.1.19 Mae'r pentref wedi parhau i ffynnu fel cyrchfan ymwelwyr yn yr 20fed ganrif. Bu'r datblygiad yn bennaf mewn perthynas â thwristiaeth, yn cynnwys creu datblygiad manwerthu a mwy o lety yn y Royal Oak ac oddi amgylch yr orsaf. Y car yw'r prif gyfrwng teithio, a gwelwyd felly ddatblygu llefydd parcio sylweddol ger yr orsaf yn arbennig. Daeth hyn hefyd â thwf mewn ymwelwyr teithiau dydd ac arhosiad byr.


4.0 Dadansoddiad Gofodol

4.1 Ffurf a Threfn Anheddiad


4.1.1 Mae ffurf bresennol y pentref wedi deillio'n bennaf o gyfnod sylweddol o ehangu, o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at ei diwedd. Datblygodd y pentref mewn ffurf linellol ar hyd y ffordd dyrpeg, ac mewn clwstwr tua'r gogledd o Bont-y-pair.

4.1.2 Yr ardal oddi amgylch Pont-y-pair oedd rhan gynharaf yr anheddiad (heblaw am yr eglwys ac adeiladwaith cysylltiedig) ac mae i'w gweld mewn lluniau o gyfnod cynnar y 19eg ganrif. Byddai datblygiad y man croesi wedi cael ei annog gan gael lle hawdd i adeiladu, gyda'r creigiau oedd yn estyn allan yn ei gwneud yn hawdd creu colofnau'r bont. Byddai anheddiad yn digwydd yn naturiol yn agos at y man croesi, ac roedd tir gwastad rywfaint yn uwch tua'r gorllewin o'r bont yn annog datblygiad yno.

8 D.Gwyn, Welsh Slate: the Archaeology and History of an Industry (RCAHMW 2015), pp.113, 117 & 124.



13 Map Ordnans, Arolwg 1888, gyda ffurf y pentref fwy neu lai fel y mae nawr.



14 Sant Mihangel - Hughes & North 'The Old Churches of Snowdonia' (1924).

4.1.3 Er mai adeiladau o'r 19eg sydd o amgylch Pont-y-pair heddiw, mae arlliw o'r anheddiad cynharach i'w weld. Yr unig adeiladau o'r adeg cyn oes Fictoria i oroesi (yn gyfan) ar Ffordd Caergybi yw'r bythynnod ym Manc Llugwy.

4.1.4 Mae'n debyg mai'r topograffi naturiol sy'n gyrru'r ffurf linellol yma. Mae ochrau serth dyffryn Afon Llugwy a gorlifdir Afon Conwy'n cyfyngu ar ddatblygiad a'i gadw at ochrau'r ffordd dyrpeg a'r A5 fodern.

4.1.5 Mae cymeriad gwahanol yn parhau yn yr ardal oddi amgylch Eglwys Sant Mihangel, sy'n rhoi syniad o'r Betws cynnar.

4.1.6 Mae gan y pentref nifer o ardaloedd cymeriad arbennig, sy'n cael sylw yn rhan 5.

4.2 Golygfeydd allweddol

4.2.1 Tu mewn i'r ardal gadwraeth, mae nifer o olygfeydd allweddol sy'n dangos naill ai ddatblygiad hanesyddol y pentref, caniatáu gwerthfawrogi nodweddion penodol neu strwythurau allweddol, neu roi dealltwriaeth iawn o ddatblygiad yn y dirwedd ehangach. Mae golygfeydd eraill yn bwysig fel cipolwg rhwng adeiladau neu tuag at nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth o'r ardal neu ei chymeriad.

4.2.2 Mae golygfeydd naill ai'n statig (golygfa benodol i gyfeiriad arbennig) neu'n ddynamig, yn cynnwys ehangder golygfa o fan penodol.

4.2.3 Maen nhw fel a ganlyn (gweler hefyd Ffigwr 21):

A Golygfeydd i fyny'r strydoedd ochr o Ffordd Caergybi tuag at dai 'villa' mawr a'r llethrau tu hwnt.

B Golygfeydd o Vicarage Road tuag at dŵr yr eglwys a choedwig Gwydir.

C Golygfeydd dynamig oddi wrth du blaen Eglwys y Santes Fair ar draws maes y pentref.

D Golygfeydd oddi wrth faes y pentref tuag at Eglwys y Santes Fair a'r Royal Oak.

E ac F Golygfeydd dynamig tu mewn i'r fynwent tuag at Eglwys Sant Mihangel.



15 Mynwent Eglwys Sant Mihangel (2021).



16 Y grîn (2021).

G Golygfeydd tuag at ac oddi wrth y bont grog (noder bod y bont grog tu allan i'r ardal gadwraeth bresennol).

H Golygfeydd o'r ffordd fynediad, gyda choed ar hyd ei hochrau, sy'n cysylltu'r stablau a'r Royal Oak

I Golygfeydd dynamig o Afon Llugwy, ar draws gerddi oes Fictoria'r Royal Oak, i fyny'r afon tuag at Bont-y-pair ac i lawr yr afon tuag at lle mae'n ymuno gydag Afon Conwy.

J Golygfeydd i fyny Pentre Felin tuag at Sŵn-y-Dŵr a Bryn Afon.

K Golygfeydd dynamig oddi wrth Bont-y-pair ar hyd Afon Llugwy.

L Golygfa tuag at Fryn-y-Bont a'r Neuadd Goffa ar draws Bont-y-pair.

M Golygfeydd o Bont-y-pair ar draws y creigiau a'r rhaeadr.

N Golygfeydd oddi wrth Bont-y-pair i fyny'r afon tuag ar y rhaeadrau ac ochrau coediog Afon Llugwy.

O a P Golygfeydd ar hyd Ffordd Caergybi.

Q a R Golygfeydd hir tuag at Fetws-y-coed o'r A5 (dwyrain) a'r A470 (gogledd) yn dangos y newid yn y dirwedd a chefndir ehangach y pentref.

4.3 Mannau Gleision a Choed

4.3.1 Mae'r mannau gleision tu mewn i'r ardal gadwraeth yn amrywio, o gefndir cynnar Eglwys Sant Mihangel i ardaloedd mwy ffurfiol wedi'u tirlunio ac o'r 19eg ganrif, a'r ardaloedd amaethyddol sy'n parhau i fodoli ar hyd Afon Llugwy ac Afon Conwy.

4.3.2 Mae gan y grîn rhwng, yr orsaf tua'r dwyrain a'r Royal Oak ac Eglwys y Santes Fair tua'r gorllewin, gymeriad syml, trefol ond mae'n creu blaendir cryf i olygfeydd tuag at yr eglwys. Mae coed aeddfed da o'i amgylch.

4.3.3 Mae mynwent Eglwys Sant Mihangel yn arbennig o bwysig, fel rhan gyntaf yr anheddiad, yn darparu cefndir i'r eglwys a lle tawel i ffwrdd oddi wrth brysurdeb atyniadau ymwelwyr canol y pentref.



17 Pont-y-pair. (2021).



18 Coed mawr o amgylch y grîn, yn rhoi ambell gipolwg o Eglwys y Santes Fair.

4.3.4 Wrth ochr Afon Llugwy, mae rhan o'r dorlan ddeheuol tu mewn i'r ardal gadwraeth, ac yn parhau i fod o gymeriad amaethyddol, gyda wal o gerrig sych ar hyd ymyl y ffordd.

4.3.5 Mae'r ardaloedd o gwmpas Pont-y-pair yn bwysig iawn. Gall ymwelwyr gael mynediad yno i'r creigiau sy'n brigo wrth ochr y rhaeadr ar Afon Llugwy. Maen nhw'n darparu golygfeydd gyda chefndir o'r bont hanesyddol, gyda theimlad cryf o leoliad gyda'r rhaeadr yn y tu blaen a'r pentref tu cefn. Bydd y fan yma hefyd yn bwysig yn gymunedol, fel lle i bobl ymgasglu, yn enwedig felly ar gyfer ymwelwyr.

4.3.6 Mae gerddi Betws-y-coed yn adlewyrchu ei chymeriad o oes Fictoria a, lle maen nhw i'w gweld, yn bwysig yng nghyswllt yr Ardal Gadwraeth. Mae'r enghreifftiau da o'r rhain yn cynnwys cefndir Mairlys, y Ferns a Chrochendy Betws-y-coed.

4.3.7 Mae nifer sylweddol o goed yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u diogelu gan orchmynion cadw coed. Gellir eu gweld yn Ffigwr 46 a rhan 8.

4.3.8 Gellir gweld grwpiau arbennig o goed eraill yn y cynllun yn **Ffigwr 46**, sy'n cynnwys:

- Coed mawr o amgylch y grîn, yn cynnwys ffawydd a derw.
- Coed ar y torlannau ar ddwy ochr Afon Llugwy.

5.0 Cymeriad

5.1 Golwg Gyffredinol

5.1.1 Yn gyffredinol yr hyn sy'n nodweddu Betws-y-coed yw ei leoliad trawsnewidiol ynghanol y dirwedd sy'n ei hamgylchynu. Mae'n drothwy i fynyddoedd mwy garw Eryri, wrth i'r tir fynd yn fwy serth o'i gymharu â gweundir ymdonnog Sir Ddinbych tua'r dwyrain. Mae'r pentref ar y gyffordd rhwng dyffryn Llugwy gyda'i ochrau serth a dyffryn lletach Conwy tua'r gogledd. Dyma'r man lle bydd ymwelwyr yn cyrraedd, ac mae'n naturiol yn creu teimlad o ddisgwyliad a chyffro gweledol.

5.1.2 Caiff y teimlad o ddisgwyliad wedyn ei atgyfnerthu gan y nodweddion naturiol sydd o fewn cyrraedd hawdd i'r pentref, sef y rhaeadrau ar hyd Afon



19 Afon Llugwy gyferbyn â Gwesty'r Royal Oak. (2021).




20 Dod tuag at Fetws-y-coed o'r dwyrain. Moel Siabod yn y cefndir..

Llugwy i Raeadr Ewynnol, a cherdded (heb fod ar dir agored y mynyddoedd uchel) at nodweddion naturiol fel Llyn Elsi.

5.1.3 Erbyn hyn, mae cymeriad adeiledig y pentref yn bennaf o oes Fictoria, ac wedi'i gadw'n dda. Gan fod llawer o'r adeiladwaith o'r un adeg, mae gan y cyfan gydlyniad gweledol ac mae wedi'i ddylunio i gael effaith pictwrésg.


5.1.4 Mae datblygiadau diweddarach wedi ceisio atgyfnerthu cymeriad alpaidd y pentref, trwy ddefnyddio pren sydd yn y golwg, gyda balconïau'n estyn allan a manylion gyda theimlad cyfandirol amlwg iddynt. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys ailddefnyddio Capel Tabernacl fel siop awyr agored, trwy roi cladin o'r math hwn ar yr wyneb blaen.

5.1.5 Mae cymeriad y dirwedd wedi newid ers adeg y rhyfel byd cyntaf, gan greu'r coetiroedd masnachol, o gonwydd yn bennaf oll, sy'n gefndir i lawer o'r pentref. Mae hyn hefyd wedi cyfrannu at y cymeriad alpaidd y cyfeiriwyd ato'n gynharach.



21 Golygfeydd Allweddol yn yr Ardal Gadwraeth a Gerllaw (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

Golygfeydd Allweddol
1:5000 ar A4



Ardaloedd Cadwraeth
1:5000 ar A4

22 Ardaloedd Cymeriad yr Ardal Gadwraeth (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

5.2 Ardaloedd Cymeriad, Golwg Gyffredinol.

5.2.1 Mae Betws-y-coed yn ardal gadwraeth mwy o faint, a chanddi nifer o wahanol ardaloedd cymeriad.

5.2.2 Y strwythurau cynharaf yw Eglwys Sant Mihangel a Phont-y-pair. Mae'r eglwys hon yn strwythur petryal syml nodweddiadol, ond gyda chroesfa ogleddol a ychwanegwyd gan yr Arglwydd Willoughby de Eresby (a oedd yn byw yng Ngwydir ar y pryd) yn 1843.[9] Mae'r to o lechi cynnar, mewn rhesi sy'n llai o faint wrth fynd at i fyny, gyda dyffrynnoedd llechi traddodiadol. Mae'r eglwys yn **Ardal Cymeriad 4** sy'n cynnwys Eglwys Sant Mihangel a'r ardal fwy agored o amgylch yr orsaf a'r grîn.

5.2.3 Mae'n bosibl bod y strwythur presennol ym Mhont-y-pair o'r 17eg ganrif, ond yn debyg o fod wedi'i seilio ar y strwythur o ganol y 15fed ganrif y sonnir amdano gan Pennant. Mae gan y bont bresennol bum bwa segmentaidd, gyda'r un canol yn estyn dros Afon Llugwy. Mae Pont-y-pair ar gyffordd Ardaloedd Cymeriad 2 a 3. Mae **Ardal Cymeriad 2** yn cynnwys yr ardal tua'r dwyrain o'r bont, gyda Phentre Felin ynddi.

5.2.4 Y brif ffordd drwy Fetws-y-coed nawr yw'r A5 ond yn ei hanfod hon yw'r ffordd dyrpeg a wellwyd yn ddiweddarach gan Telford, gydag adeiladau carreg sylweddol o'r 19eg yn nodweddiadol ohoni. Byddai llawer o'r rhain wedi bod yn westai, ac mae nifer o adeiladau gwesty da. Yr amlycaf o'r rhain yw gwesty'r Royal Oak (gweler **Ardal Cymeriad 3**). Yr ardal hon yw calon Betws ar gyfer twristiaeth, ac ynddi hefyd mae Eglwys y Santes Fair, adeilad cain a ailadeiladwyd gan Paley ac Austin yn 1872-3.

5.2.5 Tuag at Gapel Curig, gellir gweld patrwm rywfaint cynharach o adeiladu. Mae tai annedd teras o gyfnod cynnar y 19eg ganrif yn parhau ar ochr ddeheuol y ffordd, yn cynnwys y rhes ym Manc Llugwy (gweler **Ardal Cymeriad 1**).



23 Gwesty'r Royal Oak (2021).



24 Siopau o Oes Fictoria, Ffordd Caergybi (2021).

9 Voelcker et al, t.266.

5.3 Ardaloedd Cymeriad.

Ardal Cymeriad 1, tua'r Gogledd a'r Gorllewin o Bont-y-pair.

5.3.1 Er y cafodd y rhan fwyaf ei ail adeiladu, mae'r ardal hon yn dangos y rhan gynnar o'r anheddiad, sydd i'w weld orau mewn ysgythriad o un gwreiddiol Compton yn 1818 (gweler ffigwr 09). Mae'r Ardal Cymeriad yn estyn tua'r gorllewin o Bont-y-pair hyd at ffin yr ardal gadwraeth, a rhan fechan tua'r gogledd o Afon Llugwy.

5.3.2 Ar hyd y brif ffordd (bellach yr A5), tua'r de gyferbyn â'r bont mae Gwesty Pont-y-pair, sy'n adeilad da gydag wyneb dwbl, o'r 19eg ganrif. Mae wedi cadw'r ffenestri gwreiddiol a manylion sylweddol, yn cynnwys feranda gain mewn haearn bwrw. Yng Ngwesty Pont-y-pair yr arhosodd David Cox gyntaf, ond yr adeg honno ei henw oedd y Swan Inn (ac roedd yn adeilad cynharach, neu o leiaf cafodd ei hail adeiladu'n sylweddol ers hynny).

5.3.3 Tua'r gogledd o'r bont mae bwthyn rhestredig, Bryn-y-Bont,[10] oedd gynt yn perthyn i stad Gwydir, mewn arddull 'cottage ornee' o tua 1845 ac yn debyg i'r Tŷ-Hyll adnabyddus ger Capel Curig (a oedd hefyd yn perthyn i stad Gwydir). Cafodd y bwthyn ei adeiladu fel llety i gefnogi'r ysgol eglwys gerllaw, a chodwyd y Neuadd Goffa yn lle honno, a'i hagor yn 1929. Mae gan y bwthyn simnai gron, sy'n arbennig o anghyffredin. Ger y bwthyn mae villa Bryn Pair, nawr yn siop nwyddau awyr agored gyda ffenestri bae diweddarach, ond heblaw am hynny yn adeilad wedi'i gadw'n dda.

5.3.4 Mae'r Neuadd Goffa'n adeilad cadarn o gerrig nadd llechen dywyll mewn rhesi, gyda manylion o gerrig nadd ithfaen hefyd mewn mannau. Mae gan yr adeilad fanylion cynnil yn yr arddull celf a chrefft, yn cynnwys colofnau sy'n estyn allan a ffenestr oriel yn y prif wyneb. Gosodwyd y ffenestri presennol yn lle rhai cynharach.

5.3.5 Ger y bont mae adeilad a elwir bellach yn Hen Siop Pont-y-pair. Dyma eto adeilad o'r 19eg sydd wedi'i gadw'n dda, gyda bargodion sy'n estyn allan gryn dipyn, ffenestri ac wyneb siop gwreiddiol.

[10] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=3231



25 Neuadd Goffa and Bryn y Bont, 2021.



26 Pont-y-Pair Inn (2021).

5.3.6 Ar ochr ddeheuol y ffordd, rhwng y gwesty a'r capel, mae'n nodweddiadol bod yr adeiladau'n agos at y ffordd gerbydau. Mae rhes o adeiladau sy'n amrywio mewn uchder, gyda'r garreg ynddynt i'w gweld yn y rhan fwyaf ond bod gan Tegfan rendrad o gyfnod cynnar yr 20fed ganrif. Ffenestri modern sydd gan y rhan fwyaf ohonynt, heblaw am yr adeilad Rohan presennol, sy'n un cadarn, da o gerrig nadd a thri llawr gyda ffenestri cortyn yn y lloriau uchaf. Ffenestri modern gwael iawn sydd yn yr adeilad agosaf ato a thalcen sydd wedi'i rendro'n wael a heb gael ei baentio, gan amharu ar olygfeydd wrth edrych tua'r gorllewin i mewn i'r ardal gadwraeth (gweler ffigwr 47).

5.3.7 Cafodd ei gofnodi ei bod yn debygol bod rhai o'r adeiladau hyn yn gynharach, gyda thystiolaeth tu ôl i Gaffi Caban-y-pair[11] yn awgrymu y byddai yno res o dai cynharach, llai o faint, ar ongl o naw deg gradd i'r ffordd, efallai'n llefydd byw i weithwyr mwynglawdd plwm.

5.3.8 Mae Capel y Methodistiaid Calfinaidd Brynmawr o 1872, gan Richard Owens, yn sefyll uwchben yr A5 tua'r de. Mae yn yr arddull Eidalaidd sy'n nodweddiadol o ddyluniadau Owens o'r cyfnod hwn. Mae'n adeilad amlwg yn yr olygfa uwchben y ffordd, gyda'r Tŷ Capel tua'r dwyrain, ac wedi cadw llawer o'i fanylion gwreiddiol, ar y tu allan a'r tu mewn. Mae ganddo wal derfyn a rheiliau da (gweler ffiniau). Roedd yr adeilad yn wag ar adeg llunio'r adroddiad hwn. [12]

5.3.9 Gyferbyn â'r capel mae hen ysgol Glyn Llugwy, sy'n adeilad pictwrésg iawn gyda chymeriad cryf hyd yn oed ar ôl ei newid at ddefnydd manwerthu. Yn hwn, ynghyd ag yn nhŷ'r ysgol gerllaw, mae manylion gwreiddiol sylweddol yn parhau, yn cynnwys saernïaeth a darpariaeth awyru yn y to sy'n nodweddiadol o'r 19eg ganrif. Mae gan dŷ'r ysgol estyniad diweddarach (mewn rwbel llechi) tua'r dwyrain.

5.3.10 Yr hen Gapel Tabernacl yw'r adeilad olaf ar ochr ogleddol y ffordd, ac mae wedi cael ei newid lawer gyda mynedfa bren mewn arddull alpaidd ac o bren trwm, a ffenestr oriel. Mae hwn o ryw ddiddordeb ac wedi ennill ei bwysigrwydd ei hunan, yn dangos yr agwedd tuag at ddatblygiad Betws fel pentref gwyliau tuag at ddiwedd yr 20fed ganrif. Mae mynedfa debyg ar Lys Caradoc (nawr yn Siop Trespass), sy'n adeilad o gryn ansawdd gyda



27 Capel y Methodistiaid Calfinaidd, Brynmawr, 2021.



28 Early cottages at Banc Llugwy. (2021).

11 https://historypoints.org/index.php?page=caffi-caban-y-pair-betws-y-coed
12 Voelcker t.268.

rhywfaint o bwyslais gothig ar bennau'r ffenestri a thalcenni cryf, gan gadw'r ffenestri gwreiddiol uwchben lefel y stryd.

5.3.11 Ymhellach tua'r gorllewin, yn sefyll ychydig yn uwch na'r ffordd, mae rhes Banc Llugwy (mewn dwy ran) sy'n gynharach nag adeiladwaith adeiledig cyffredinol y pentref, sef cyn dyfodiad y rheilffordd, a rhai gyda ffenestri codi a manylion wedi goroesi. Yn anffodus, cafodd y rhes ddwyreiniol ei newid gyda ffenestri modern yn y cyfnod diweddar. Tu draw iddynt mae mwy o adeiladau villa o'r 19eg ganrif, pob un wedi cael newidiadau iddynt ond gyda manylion saernïaeth (fel yr ymylon bondo) sydd o rywfaint o ddiddordeb. Mae gan Grochendy Betws-y-coed ffenestri codi a manylion eraill.

Ardal Cymeriad 2, Pentre Felin, tua'r Gogledd a'r dwyrain o Bont-y-pair.

5.3.12 Tu draw i ben dwyreiniol Pont-y-pair, ar hyd y ffordd (nawr y B5106) tuag at Drefriw a Chastell Gwydir, fe sefydlwyd melin, mae'n debyg yn yr 17eg ganrif (er mai ddim ond yn 1811 mae'r cyfeiriad cyntaf ati).13 Mae adeilad melin ddiweddarach, o'r 19eg ganrif mae'n debyg, yn dal i fodoli tua'r gorllewin o'r ffordd.

5.3.13 Cyfeirir at yr adeilad hwn fel yr Albert Roller Mill ar fap 1888. Roedd melin gyda rholeri yn fath mwy modern na'r rhai gyda cherrig llorweddol, a bu'n malu ceirch i wneud bara hyd at 1940. Mae'r felin ran o'r ffordd i lawr Pentre Felin er mwyn cael dŵr i mewn i sianel yn uwch i fyny'r afon i'r olwyn ddŵr a'r neuadd ar safle yn uwch i fyny.

5.3.14 Mae gan y felin waith cerrig gwreiddiol, yn cynnwys blociau sylweddol yn y rhan lletach tua'r de-orllewin, lle efallai roedd yr olwyn ddŵr. Cafodd yr adeilad ei droi'n fflatiau, ond gyda newidiadau amhriodol, fel ffenestri uPVC modern a thoeau gwastad o ansawdd gwael.

5.3.15 Roedd y tŷ nesaf, sydd nawr yn sefydliad gwely a brecwast o'r enw Bodlondeb, gynt yn dafarn o'r enw'r Miners' Arms. Mae iddo ddyluniad arbennig, gyda ffenestri dormer carreg, a thalcen yn estyn allan uwchben y fynedfa. Erbyn hyn mae wedi'i baentio gyda phaent modern ac wedi cael un ffenestr newydd. Mae ganddo estyniadau diweddarach tua'r gogledd-ddwyrain.

13 https://www.tate.org.uk/art/artists/david-cox-117



29 Hen Felin Rowlio Albert, 2021.



30 Sŵn-y-Dŵr a Bryn Afon. (2021).

5.3.16 Ar ochr ddeheuol y ffordd, mae'r tai oll o batrwm tebyg ac o ran olaf y 19eg ganrif. Maen nhw naill ai'n dai sengl neu barau, gyda ffenestri dormer mewn talcenni bychan. Cafodd y rhain eu hadeiladu yn gyffredinol o rwbel heb fod mewn rhesi, gyda manylion a chonglfeini o gerrig nadd. Mae gan lawer ohonynt y ffenestri codi gwreiddiol, ond gosodwyd rhai uPVC yn y rhan fwyaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n ymddangos bod y pâr sydd wedi'u rendro, sef Preswylfa a Hyfrydle, o gyfnod diweddarach (yn gynnar yn yr 20fed ganrif) ac mae ganddynt ymylon bondo wedi'u haddurno.

5.3.17 Gyferbyn â'r Neuadd Goffa, mae Sŵn-y-Dŵr a Bryn Afon yn filas sydd wedi'u cadw'n dda, gyda manylion gwreiddiol ac yn grŵp pwysig gyda Bryn-y-Bont a'r Neuadd Goffa.

5.3.18 Nodwedd o'r ardal yw'r berthynas agos rhwng yr adeiladau domestig tua'r de (Afon Llugwy) o'r ffordd a'r adeiladau mwy o faint, y felin, neuadd a Bodlondeb tua'r gogledd yn erbyn y llethr coediog sy'n mynd yn fwyfwy serth. Mae'r tir amaethyddol rhwng y tai ac Afon Llugwy'n darparu rhan bwysig o'r cefndir, yn enwedig wrth edrych ar draws y Llugwy o gyferbyn â'r Royal Oak.

Ardal Cymeriad 3, Pentref Gwyliau o'r 19eg Ganrif

5.3.19 Mae patrwm llinellol y stryd o oes Fictoria yn parhau'n amlwg iawn, ers ei ddatblygu o'r 1840au ymlaen, a llawer mwy felly ar ôl i'r rheilffordd gyrraedd. Cafodd adeiladau eu codi yn bennaf ar ochr dde-orllewinol y ffordd, gyda golygfeydd agored ar draws tir glas a choed at y bryniau tu draw.

5.3.20 Ym mhen gogleddol yr ardal cymeriad, siop Hawkshead yw un o'r ychydig adeiladau ar yr ochr o'r ffordd agosaf at yr afon. Mae hwn yn adeilad gyda chryn gymeriad ond gydag wyneb siop diweddarach ac estyniad modern bychan tua'r de-ddwyrain.

5.3.21 Gyferbyn, mae'r hen siop Ultimate Outdoors nawr yn cael ei dymchwel a rhoddwyd caniatâd ar gyfer adeilad newydd.

5.3.22 Ar ochr ddeheuol y ffordd, mae adeiladau o oes Fictoria gyda thalcenni. Mae'r rhain yn cynnig lefel uchel o gymeriad mewn grŵp a hefyd o ran rhai o'r manylion unigol.

5.3.23 Rhwng Pont-y-pair a'r Royal Oak, mae'r adeiladau'n amrywio mewn uchder, sy'n nodwedd weledol bwysig ond yn gyffredinol maen nhw'n dangos tu



31 Afon Llugwy a Bryn Afon (2021).



32 Manylion, y Three Gables. (2021).

blaen talcennog tuag at y stryd, sy'n caniatáu defnyddio manylion o ansawdd da yn y pren, yr ymylon bondo a manylion eraill.

5.3.24 Mae gan Three Gables, yn enwedig, fanylion arbennig o dda o ran ymylon y bondo, a'r ffenestri codi gwreiddiol yn y llawr cyntaf. Mae Talgarth House wedi dioddef trwy gael wyneb siop ymwthiol iawn, sy'n achosi trefniant anfoddhaol o landeri uwchben.

5.3.25 Tua'r gogledd-orllewin o'r siop Anna Davies fodern, mae adeilad bach diddorol gyda bwaon ar lefel y stryd, ffenestri haearn uwchben a bondo cryf yn estyn allan ar gorbelau carreg sydd, mae'n debyg, o'r un cyfnod â Bryn-y-Bont

5.3.26 Y Royal Oak yw'r adeilad gorau o ddatblygiad twristaidd y pentref yng nghanol y 19eg ganrif. Mae'n tynnu ar enghreifftiau rhanbarthol o'r 17eg ganrif wedi'u cyfuno gydag arlliw rywfaint yn Albanaidd, i greu wyneb cryf tuag at y stryd. Mae hefyd yn gymharol gyflawn, gyda ffenestri codi da a manylion eraill, er yr ychwanegwyd estyniad newydd ac ystafell wydr uPVC wael tua'r gogledd.

5.3.27 Tuag at bont y rheilffordd, mae'r datblygiad yn dilyn y ffordd ar yr ochr dde-orllewinol. Cafodd y tir rhwng y Royal Oak ac eglwys y Santes Fair ei ailddatblygu gyda manwerthu modern, parcio a llety gwesty ychwanegol.

5.3.28 Mae Eglwys y Santes Fair yn adeilad cain gan y penseiri o Sir Gaerhirfryn, *Paley ac Austin*, i ymdopi gyda'r cynnydd mewn poblogaeth ac ymwelwyr yn 1872-3. Mae mewn arddull sy'n trawsnewid o'r gothig cynnar i'r Romanesg.[14] Mae'r tŵr croes yn bwysig iawn mewn golygfeydd allweddol ar draws y grîn, a chan ei bod wedi'i gosod yn ôl oddi wrth y ffordd mae'n 'doriad' arbennig yn yr wynebau ar hyd y ffordd, sef y gwestai a'r filas. Tu cefn iddi mae neuadd y plwyf (1978) sy'n ychwanegiad da o'r oes yma. Yn anffodus mae tir yr eglwys yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol heddiw ar gyfer parcio a thalu.

5.3.29 Tua'r de o'r eglwys, mae'r datblygiad yn dilyn patrwm tebyg, yn gyffredinol yn adeiladau o ganol y 19eg ganrif sydd wedi'u cadw'n dda, yn bwysig gyda'i gilydd a chyda nodweddion arbennig. Mae gan Westy'r Gwydyr ganopi haearn sy'n estyn allan, a thyred, ac mae canopïau haearn ar

14 Voelcker et.al. Buildings of Wales, Gwynedd, tud.267.



33 Royal Oak Hotel (2021).



34 Garth Dderwen. (2021).

Frondeg a Siop Pendyffryn. Mae'r ffenestri gwreiddiol yn parhau mewn nifer o adeiladau. Mae Mairlys a The Ferns wedi'u gosod yn ôl, a'r gerddi gyda phlanhigion oes Fictoria'n ennyd weledol bwysig ar gwr prif ran y pentref.

5.3.30 Mae rhai filas pwysig yn sefyll yn ôl ar eu pennau eu hunain ar y tir uwch tua'r gorllewin, yn bennaf ar Vicarage Road. Mae'r adeiladau arbennig sy'n werth eu nodi'n cynnwys Garth Dderwen, sydd wedi'i gadw'n dda, a'r adeiladau mwy o faint uwchben, yn cynnwys Woodlands a'r Ficerdy. Mae'r pâr o westai uwchben yr eglwys, sef Coed-y-Fron a Church Hill, yn amlwg mewn golygfeydd allweddol ac mae ganddynt lythrennau carreg yn sefyll allan o wyneb yr adeiladau.

Ardal Cymeriad 4, Eglwys Sant Mihangel a'r Orsaf.

5.3.31 Mae Eglwys Sant Mihangel ac ardal y fynwent yn rhoi cyfle i werthfawrogi'r anheddiad cynnar, i ffwrdd oddi wrth y dwristiaeth sydd wedi diffinio'r pentref am dros 150 mlynedd.

5.3.32 Mae Sant Mihangel (sy'n rhestredig, graddfa II*) [15] yn nodweddiadol yn strwythur hirsgwar syml ond gyda transept a phortsh wedi'i ychwanegu gan yr Arglwydd Willoughby de Eresby (oedd yng Ngwydir ar y pryd) yn 1843. [16] Mae'r to o lechi cynnar, mewn rhesi o faint llai wrth fynd at i fyny a chyda dyffrynnoedd llechi traddodiadol, yr unig enghraifft yn y pentref. Mae porth y fynwent [17] tua'r gorllewin hefyd wedi'i restru. Mae ei ddyluniad o ganol y 18fed ganrif. Mae porth arall y fynwent, o oes Fictoria, (tua'r de) yn llawer mwy blodeuog, gyda thalcen grisiog.

5.3.33 Mae cysylltiadau gweledol pwysig rhwng y fynwent ac Afon Conwy'n cael eu gwella gan y golygfeydd tuag at ac oddi wrth y bont grog (nad yw tu mewn i ffin yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd). Mae hyn yn atgyfnerthu'r gwerthfawrogiad o'r Betws cynnar. Yn anffodus, mae agosrwydd y parc carafanau tua'r gogledd o'r safle'n andwyo cefndir rhan ogleddol yr hen fynwent.

5.3.34 Mae Ffordd Hen Eglwys yn arwain o'r A5 at Sant Mihangel, dros y bont reilffordd o'r 1860au, sydd ynddi ei hunan yn nodwedd bwysig, gyda



35 Eglwys Sant Mihangel o'r bont grog (2021).



36 Hen Orsaf yr Heddlu a Llys yr Ynadon. (2021).

15 https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=3229
16 Voelcker et.al. Buildings of Wales, Gwynedd, p.266.
17 https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=17826

golygfeydd at i lawr yn dangos hyd platfform gwreiddiol yr orsaf, sy'n dyst i'r trenau hir fyddai'n dod ag ymwelwyr i'r pentref.

5.3.35 Mae tŷ modern, y gyfnewidfa ffôn a mynwent fodern tua'r gorllewin o'r ffordd ac nid ydynt yn cyfrannu at yr ardal. Fodd bynnag, mae hefyd hen orsaf yr heddlu, a adeiladwyd yn 1872 (ac sydd rŵan yn westy 'The Old Court House') ac oedd yn wreiddiol yn cynnwys ystafell llys yr ynadon a thŷ i ringyll. Mae wedi cael ei gadw'n gymharol dda ar y tu allan, gyda'r gell i gadw carcharorion i'w gweld. Fe adeiladwyd hwn o rwbel heb fod mewn rhesi, gyda cherrig nadd pinc, efallai'n rhai Ancaster (mae'n uniongyrchol o'r un cyfnod â'r Eglwys).

5.3.36 Tua'r gorllewin o'r eglwys, yn lle oedd gynt yn iard nwyddau'r orsaf, mae Amgueddfa Rheilffordd Dyffryn Conwy wedi bod yn nodwedd o'r pentref ers yr 1970au, ac yn darparu cefndir addas i'r orsaf tu hwnt, tra bo'r adeiladau (ar safle'r hen sied nwyddau) yn rhai sylfaenol eu natur.

5.3.37 Cafodd yr Orsaf ei dylunio a'i hadeiladu gan Owen Gethin Jones. Mae'n ddyluniad sydd wedi'i ystyried yn dda ac yn darparu diddordeb trwy gyfrwng y gwahaniaeth rhwng y bandio gyda briciau a'r garreg dywyll, meini bwa ''heuladdurn' a manylion eraill. Mae graddfa'r orsaf yn dangos yn amlwg sut roedd y pentref yn llwyddo fel cyrchfan, ac mae mewn arddull wahanol iawn i orsafoedd eraill Dyffryn Conwy. Mae'r orsaf yn cael gofal da a chafodd ei gwella gan y Cyngor Cymuned. Cafodd yr orsaf ei ehangu'n sylweddol tua'r de a'r gorllewin gydag unedau manwerthu newydd, sydd wedi cuddio rhan o'i hwyneb gwreiddiol. Llefydd parcio ceir yw'r rhan fwyaf o'r blaengwrt erbyn hyn.

5.3.38 Mae maes y pentref gyferbyn â'r orsaf ac yn lle pwysig ar gyfer gweithgaredd yn ogystal â chefndir i'r golygfeydd tua'r eglwys a'r Royal Oak a hen stablau'r Royal Oak, sydd nawr yn ganolfan ymwelwyr Parc Cenedlaethol Eryri.

5.4 Deunyddiau a Manylion

5.4.1 Y prif ddeunydd adeiladu yw carreg, ond mae cymysgedd ddiddorol o garreg sy'n adlewyrchu'r ddaeareg leol, y cyfan yn dywyll a chaled ac yn gyffredinol yn llechen, gyda rhywfaint o garreg grut a charreg llaid. Byddai'r llechi ar gyfer waliau a'r toeau wedi dod yn wreiddiol o chwareli Hafod Las a



37 Adeilad yr Orsaf a chanopi diweddarach, y briciau'n amlwg iawn yn yr adeiladwaith (2021).



38 Bwa mynedfa hen Stablau'r Royal Oak. Sylwer ar y llechi wedi'u llifio yn yr adeiladwaith a'r voussoirs (2021).

Rhiwddolion, gyda llechi o Flaenau Ffestiniog yn ychwanegu at hynny ar ôl cael y cysylltiad rheilffordd.

5.4.2 Mae naddiad y cerrig yn amrywio'n sylweddol. Mewn adeiladau cynnar, fel Eglwys Sant Mihangel, defnyddiwyd rwbel heb fod mewn rhesi, ac mae'n debyg y byddai gorffeniad dros hynny. Mae'r adeiladau o'r 19eg ganrif yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau, yn aml gyda'r uniadau rhwng y cerrig yn gul iawn. Weithiau defnyddir cerrig rwbel yn rhan gefn adeiladau. Cafodd yr amrywiad naturiol yn lliw'r cerrig ei ddefnyddio i gael effaith pictwrésg, er enghraifft i gael gwahaniaeth rhwng y manylion cerrig nadd a cherrig y waliau.

5.4.3 Mae rendrad yn reit brin, gyda cherrig yn cael eu hystyried yn fwy priodol ar gyfer yr argraff pictwrésg o'r pentref, ond byddai wedi bod yn amlwg yn ffurf gynnar y pentref. Mae'n debyg y byddai gwyngalch yn wreiddiol ar Sant Mihangel, ac felly hefyd y rhes tai cynnar ym Manc Llugwy.

5.4.4 Mae'r rhan fwyaf o'r llechi to o'r 19eg a'r 20fed ganrif, yn llechi wedi'u hollti'n denau a'r holl resi o'r un faint, heblaw am do Sant Mihangel, lle mae rhesi llechi o faint llai wrth fynd yn uwch a dyffrynnoedd llechi. Mae manylion y toeau o'r 19eg ganrif yn amrywio, gan roi effaith pictwrésg, gyda thoeau â thalcenni serth.

5.4.5 Mae llawer iawn o nodweddion addurnol ac maen nhw'n hanfodol ar gyfer naws am le ym Metws. Mae ymylon bondo, bargodiau ayyb pren addurnedig yn bwysig i'r ardal.

5.4.6 Os peidir ystyried newidiadau diweddarach, wedyn yr arddull pennaf o ffenestr yw'r ffenestr godi, yn gyffredinol gyda gwydrau mwy o faint ac mewn ffurf 4/4. Mae rhywfaint o amrywiaeth yn y patrwm hwn, gyda gwydrau o amgylch yr ymylon mewn rhai ffenestri neu eu bod mewn ffurf wedi'i rannu.

5.4.7 Mae'r agoriadau ffenestr yn amrywio o ran arddull, gyda'r mwyafrif ohonynt yn agoriadau sgwâr syml, ond mae manylion yn amlwg, fel pen ffenestr ar ogwydd (Hawkshead) a phen gyda bwa bas (Talgarth House). Mae ffenestri oriel, bae ar ogwydd a manylion eraill hefyd yn gyffredin yma, ond yn wahanol i'w gilydd mewn ffyrdd cynnil. Mae hefyd dyredau bychan gyda thoeau siâp côn neu bolygon, fel Gwesty Gwydyr. Mae'r rhain oll yn cyfrannu at roi golwg esthetig gydlynol i'r pentref.



39 Wal y Capel gyda rheiliau addurnol. (2021).



40 Rheiliau haearn bwrw, gyda rheiliau llorweddol sy'n nodwedd arbennig a gwerthfawr. Gyferbyn â Gwesty'r Royal Oak. (2021).

5.4.8 Mae gan rai adeiladau ganopi haearn bwrw sy'n estyn allan. Yn wreiddiol, byddai gan y rhain doeau gwydr, er enghraifft Siop Pendyffryn a Frondeg.


5.5 Ffiniau

5.5.1 Y ffordd fwyaf cyffredin o ddangos ffiniau yw gyda waliau carreg, yn aml gyda gwaith haearn ar eu pennau. Cafodd rhywfaint o waith haearn ei golli ond mae peth gwaith haearn arbennig o ansawdd da yn parhau (gweler ffigwr 39 a 40). Mae manylion y rheiliau tu allan i Gapel y Methodistiaid Calfinaidd a'r rhai ar ddwy ochr terfynau'r afon trwy ganol y pentref yn arbennig iawn.

5.5.2 Mae gan y wal derfyn i'r tir amaethyddol ger yr A5, tua'r de o bont y rheilffordd, gerrig copin mawr iawn ac mae'n debyg ei bod o'r un cyfnod â'r bont, ond gallai fod o adeg gwelliannau Telford i'r ffordd. Mae'n nodwedd bwysig.

5.5.3 Ar gyrion y pentref ac o gwmpas yr hen fynwent, mae'r waliau'n rhai cerrig sych gyda cherrig copin mwy anffurfiol, sy'n adlewyrchu ffiniau tir amaethyddol. Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhain a'r enghreifftiau diweddarach o oes Fictoria yn bwysig i gymeriad ymylon yr ardal gadwraeth yn benodol.

5.5.4 Mae enghreifftiau da o golofnau pyst giatiau, mewn llechen nadd yn gyffredinol, sy'n cael eu defnyddio ar y cyd gyda chopin llechen wedi'u naddu ac ar ben carreg rwbel o danynt.



Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig
1:5000 ar A4

41 Adeiladau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth ac yn agos ati (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

6.0 Asedau Hanesyddol

6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Mae'r asedau hanesyddol dynodedig (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) a ganlyn tu mewn i'r ardal gadwraeth:

6.1.1 Henebion Rhestredig

- *CN032 Pont-y-pair*

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

- *3229 Eglwys Sant Mihangel (II*)*
- *3230 Pont-y-pair (II*)*
- *3231 Bryn-y-Bont (II)*
- *3640 Eglwys y Santes Fair (II*)*
- *17826 Porth yr Eglwys, Eglwys Sant Mihangel (II)*

6.1.3 Dynodiadau Ychwanegol Posibl.

Credir y dylid ystyried yr adeiladau a strwythurau a ganlyn i'w rhestru ar y rhestr genedlaethol:

- *Gwesty'r Royal Oak*
- *Bythynnod ym Manc Llugwy*
- *Y Bont Grog (Pont-y-Soldiwr),tu mewn i ffin yr estyniad arfaethedig i'r ardal gadwraeth.*

Dylid ystyried creu ardal gadwraeth newydd, fechan, i ddiogelu'r anheddiad diddorol tua'r gorllewin o Fetws-y-coed ym Mhentre Du, sef yr un a adeiladwyd i gefnogi Chwarel Hafodlas. Credir bod y fan hon yn wahanol i'r prif anheddiad ac yn fwy addas ar gyfer dynodiad ar wahân oddi wrth y prif bentref. Gweler ffiniau.

6.1.4 Mae cyfres o asedau hanesyddol dynodedig o bwys (henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig) o fewn 500m i'r ardal gadwraeth:

- *CN295 (Heneb Gofrestredig Melinau a Nodweddion Cysylltiedig Chwarel Hafodlas*
- *17827 Pont Waterloo (I)*
- *17828 Carreg Filltir (II)*



42 Porth y Fynwent, Eglwys Sant Mihangel, 2021.



43 Rhes tai Banc Llugwy. (2021).

- *17829 Carreg Filltir (II)*
- *18779 Beaver Grove House (II)*
- *18790 Plas Muriau (II)*
- *87582 Ysgol Gynradd Betws-y-coed (II)*

6.2 Asedau Hanesyddol Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig


Pennwyd bod yr asedau hanesyddol annynodedig a ganlyn yn yr ardal gadwraeth o ddiddordeb lleol arbennig (gweler ffigwr 44):

- *Gwesty'r Royal Oak (gweler nodyn uchod).*
- *Hen Stablau'r Royal Oak (nawr yn ganolfan ymwelwyr Parc Cenedlaethol Eryri).*
- *Yr Orsaf Reilffordd*
- *Hen Orsaf yr Heddlu*
- *Capel y Methodistiaid Calfinaidd*
- *Rhes o dai ym Manc Llugwy (gweler y nodyn uchod)*
- *Hen Ysgol Glan Llugwy*
- *Melin Rowlio Albert (Pentre Felin).*
- *Sŵn-y-Dŵr*
- *Bryn Afon*

Mae'n fwy heriol diffinio asedau annynodedig ym Metws-y-coed, oherwydd y cyfanrwydd o'r asesadau hyn. Mae mwyafrif yr adeiladau o gyfnod tebyg, a gellid ystyried y cyfan ohonynt i fod o ddiddordeb lleol arbennig. Felly mae hyn yn dadlau rhan o'r achos o blaid cael mesurau diogelu eraill ar draws yr ardal gadwraeth. Gweler rhan 2.0 o'r adroddiad hwn.


6.3 Cofrestr Adeiladau Traddodiadol

6.3.1 Dylid hefyd ystyried 'Cofrestr Adeiladau Traddodiadol' yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu trwy'r amser, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gofrestr



Asedau Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig
1:5000 ar A4

44 Ardaloedd Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)



Dynodiadau Eraill
1:5000 ar A4

45 Dynodiadau Eraill (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

7.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

7.1.1 Nid yw'n hysbys beth yw dichonoldeb archeolegol safleoedd tu mewn i'r ardal gadwraeth yn benodol. Er bod tystiolaeth gref o weithgaredd yn ystod y cyfnod cynhanes yn yr ardal o gwmpas, mae'r ardal gadwraeth wedi cael ei newid yn sylweddol.

7.1.2 Byddai'r ffordd Rufeinig o Fryn-y-Gefeiliau i Gaerhun wedi croesi Afon Llugwy ym Metws neu gerllaw, a gallai fod tystiolaeth o'r ffordd hon neu o ddyddodion sy'n gysylltiedig â hi.

7.1.3 Mae'n debyg mai o gwmpas Pont-y-pair yr oedd yr anheddiad cynnar, a dylai unrhyw ddatblygiad yn yr ardal hon yn benodol ystyried hyn. Gallai gynnwys yr anheddiad yn gynnar yn y 19eg ganrif, fyddai'n rhoi gwell dealltwriaeth o Fetws cyn datblygiad twristiaeth.

8.0 Asedau Dynodedig Eraill

8.1 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

8.1.1 Mae'r ardal gadwraeth yn gorgyffwrdd yn rhannol gydag Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Afon Llugwy. Gweler ffigwr 45.

8.2 Gorchmynion Cadw Coed

8.2.1 Mae amrywiaeth o Orchmynion Cadw Coed yn yr Ardal Gadwraeth (yn ogystal â'r diogelwch a ddarperir gan yr Ardal ei hunan). Gweler hefyd ffigwr 46. Y rheiny yw:

- Coed unigol tua'r gorllewin o Bont-y-pair
    - SNP006/ T01-T05. Onnen, Derwen, Ffinidwydd Douglas a Sycamorwydden.
- Coed unigol tua'r gogledd o hen Stablau'r Royal Oak (Noder bod coed eraill pellach wedi'u diogelu tua'r gogledd o'r ardal gadwraeth).
    - SNP071/T08-10. Derwen Ddigoes a Ffinidwydd Douglas.

- Gorchmynion Coetir (torlan ddwyreiniol Afon Llugwy)
    - SNP071 (Afon Llugwy a Fferm y Royal Oak). W01 Llydanddail Cymysg.
- Gorchmynion Grŵp (ochr orllewinol y maes parcio)
    - SNP071 (Afon Llugwy a Fferm y Royal Oak). G02. Onnen, Llwyfen, Sycamorwydden.

8.3 Tirwedd Hanesyddol Ddynodedig

8.3.1 Nid yw'r pentref wedi'i leoli mewn tirwedd hanesyddol ddynodedig.

8.4 Dynodiadau Eraill

8.4.1 Mae'r pentref tu mewn i'r Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.[18]

9.0 Bioamrywiaeth

9.1 Coed

9.1.1 Gweler 8.3 am Ochmynion Cadw Coed.


9.1.2 Gweler 4.3 am ddisgrifiad o goed allweddol/mannau coediog tu mewn i'r ardal gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.

9.2 Rhywogaethau a Warchodir

9.2.1 Mae'n hysbys bod nifer o rywogaethau gwarchodedig allweddol yn bresennol ym Metws-y-coed ac o gwmpas

9.2.2 Mae'n hysbys bod pysgod mudol fel teulu'r eog, yr eog a brithyll/sewin yn bresennol yn Afon Llugwy.

18 https://www.snowdonia.gov.wales/looking-after/dark-skies




Coed
1:5000 ar A4

46 Gorchmynion Cadw Coed a choed pwysig eraill (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)



YR AIL RAN: CYNLLUN RHEOLAETH ARDAL GADWRAETH

1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB



2.0 Deall y Materion

2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Mae Betws-y-coed wedi cadw llawer o'i gymeriad arbennig, mae'n anghyffredin fel pentref a ddatblygodd yn bennaf fel cyrchfan i ymwelwyr ac mae ansawdd ei gefndir yn y dirwedd yn eithriadol.

2.1.2 Mae'n bentref dymunol iawn, sy'n dod â phwysau ar gyfer datblygiad a newid i'r adeiladau presennol. Mae swm sylweddol o'r manylion gwreiddiol yn parhau i fodoli ar hyn o bryd.

2.1.3 Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau mewn meddiant neu'n cael eu defnyddio mewn ffordd fuddiol. Mae newid yn digwydd yn y feddiannaeth ar gyfer manwerthu ond mae'n ymddangos bod awydd yn parhau am le, fel y gwelir oddi wrth y siop Alpkit newydd ac ailddatblygu safle siop Ultimate Outdoors.

2.1.4 Mae rhai materion sy'n cael effaith niweidiol ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae'r rheiny'n cynnwys:

- Tynnu ymaith waith saer, ffenestri a drysau hanesyddol a gosod rhai modern yn eu lle, sydd yn gyffredinol wedi'u gwneud o uPVC.
- Datblygiadau neu estyniadau sy'n amhriodol neu o ansawdd gwael.
- Colli ffurfiau traddodiadol o ffiniau.
- Cerbydau, parcio a thraffig yn ormod o ddylanwad.

2.1.5 Mae'r enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Gosod ffenestri a drysau newydd yn lle hen rai mewn adeiladau allweddol yn yr ardal gadwraeth, yn cynnwys llawer o'r rhes tua'r gogledd o Dafarn Pont-y-pair ac adeiladau ar hyd Pentre Felin, yn cynnwys yr hen felin.
- Mae wynebau siop modern sylweddol wedi newid cymeriad yr adeiladau, er enghraifft Craft Cymru a Hawkshead, sy'n dod ag elfen hir, linellol sy'n amhriodol i bensaernïaeth yr adeiladau.



47 Ffenestri uPVC yn lle rhai cynharach a thalcen heb orffeniad, Ffordd Caergybi.



48 Wyneb siop modern sylweddol yn arwain at newidiadau i drefniadau dŵr glaw a manylion eraill – Craft Cymru.

2.1.6 Mae'r ychwanegiadau mewn arddull 'alpaidd' ar hen Gapel Tabernacl a Llys Caradoc, er eu bod o gyfnod penodol o amser, nawr yn rhan o gymeriad yr ardal ac yn dangos y gall ychwanegiadau o gyfnod gwahanol o amser fod yn briodol lle maen nhw'n ystyriol, a'u bod yn well na chopïau gwael sy'n ceisio efelychu'r cynhenid.

2.2 Adeiladau mewn Perygl

2.2.1 Cafodd Capel y Methodistiaid Calfinaidd ei werthu yn ddiweddar ar ôl ei gau. Er nad yw'r capel wedi'i restru ar hyn o bryd, mae'n adeilad allweddol yn yr ardal gadwraeth, wedi'i osod yn ôl oddi wrth y ffordd a chanddo fanylion gwreiddiol sylweddol.

2.2.2 Ar hyn o bryd, gan nad yw'r adeilad wedi'i restru nac yn destun cyfarwyddyd erthygl 4, mae felly mewn perygl mawr o newid amhriodol.

2.2.3 Roedd bwriad i gau'r siop Hawkshead ger Pont-y-pair ar adeg gweud yr arolwg. Mae hwn yn adeilad da mewn lleoliad allweddol, a bydd angen canfod ffordd briodol o'i ddefnyddio.

3.0 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.

3.1.1 Cynahliwyd dadansoddiad CGCB ar gyfer Betws-y-coed. Defnyddir hwnnw i ganfod beth yw'r materion, a hefyd rai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr ardal gadwraeth. Bydd wedyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer creu'r cynigion rheoli cadarnhaol sy'n dilyn.

3.1.2 Mae'r dadansoddiad CGCB yn dangos nifer o bwyntiau allweddol ar gyfer gweithredu, i adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr ardal gadwraeth. Mae'r rheiny'n cynnwys:

- Cefnogi adfer manylion traddodiadol adeiladau a gwella mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer gwell perfformiad amgylcheddol.
- Canfod defnydd newydd i Gapel y Methodistiaid Calfinaidd fel bod modd diogelu a gwella ei bwysigrwydd.
- Ceisio gwella drychiadau cefn rhai o'r gwestai, yn enwedig lle maen nhw'n wynebu Vicarage Road.



49 Alpkit, esiampl o ychwanegiadau arddull 'alpaidd' i rai adeiladau



50 Capel y Methodistiaid Calfinaidd, Brynmawr, 2021.

- Sicrhau bod y manylion gwreiddiol sylweddol sy'n parhau i fodoli yn yr Ardal Gadwraeth yn cael eu diogelu trwy ddefnyddio rheolaethau datblygu gwell (cyfarwyddiadau erthygl 4).
- Ystyried newidiadau i'r ffordd ar Ffordd Caergybi, lle mae'r adeiladau yn union ar defyn y ffordd, sy'n risg i gerddwyr, ac apêl yr adeiladau hyn.

3.1.3 Mae'r CGCB yn dangos nifer o wendidau a bygythiadau, sydd wedi'u dangos fel camau gweithredu, ac sy'n cynnwys:

- Ceisio cael ymgysylltiad cadarnhaol i ailwneud newidiadau niweidiol i adeiladau a nodweddion allweddol.
- Sicrhau diogelu mannau glas a golygfeydd allweddol trwy ymgysylltu lleol ac wrth ystyried ceisiadau datblygu.
- Ystyried effaith llefydd parcio, yn enwedig o gwmpas Eglwys y Santes Fair.

4.0 Rheolaeth Gadarnhaol.

4.1 Newidiadau i Ffiniau.

4.1.1 Bwriedir ymestyn yr ardal gadwraeth i gynnwys Pont y Soldiwr (y bont grog) a'r rhannau cyfagos o'r afon, er mwyn cynnwys y strwythur pwysig hwn a golygfeydd allweddol..

4.1.2 Mae hefyd yn cael ei argymell y dylid asesu Pentre Du ar gyfer ei ddynodi fel ardal gadwraeth ar wahân.

4.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

4.2.1 Mae'r cefndir o fframwaith ddeddfwriaethol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen ragarweiniol Introduction to **Conservation Areas for the 21st Century**. Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi canllawiau a pholisïau cyffredinol.

4.2.2 Argymhellir bod cyfarwyddyd erthygl 4 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ardal gadwraeth Betws-y-coed. Mae'r pentref wedi cael ei gadw'n dda, ar y cyfan, ac mae cyfle i gyfyngu ar newid amhriodol pellach ac ar golli ffenestri, saernïaeth a nwyddau dŵr glaw hanesyddol.

4.2.3 Fel y nodwyd yn 6.1 o'r Asesiad Ardal Gadwraeth, argymhellir bod y Royal Oak, bythynnod Banc Llugwy a'r Bont Grog yn cael eu hystyried ar gyfer eu rhestru ar y rhestr genedlaethol. Os nad oes modd gwneud hyn, dylid eu diogelu trwy naill ai gyfarwyddiadau erthygl 4 unigol neu i gynnwys y cyfan.

4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

4.3.1 Gellid gwella ei diddordeb arbennig yn sylweddol trwy roi sylw i rai o'r materion, a gwendidau a bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth (gweler 2.0). Gellid gwneud hynny trwy ymestyn pwerau neu ganllawiau cynllunio.

4.3.2 Mae'r materion penodol i gael sylw yn Ardal Gadwraeth Betws-y-coed yn cynnwys:

- Posibilrwydd o ddefnyddio mesurau rheoli datblygiad (cyfarwyddyd erthygl 4) i reoli colli manylion a nodweddion saernïaeth hanesyddol.
- Ystyried briff dylunio i sicrhau bod Capel y Methodistiaid Calfinaidd, nad oes defnydd iddo mwyach, yn cael ei addasu mewn ffordd sensitif i ddefnydd newydd.
- Gwella'r wynebau sydd gan adeiladau allweddol tuag at yr afon yn ogystal â thuag at y ffordd.
- Gwella cefnau gwestai lle gellir eu gweld o Vicarage Road.
- Ceisio rheoli datblygiad 'llenwi bylchau' a datblygiad o ansawdd amhriodol ar gyrion yr ardal gadwraeth.
- Annog adfer manylion saernïaeth mwy priodol i adeiladau o bwysigrwydd lleol, yn lle'r rhai uPVC modern a osodwyd yno.

4.3.3 Cynigir y dylid darparu **canllawiau dylunio** er mwyn deall ac annog newid priodol yn yr ardal gadwraeth. Dylai hynny gynnwys:

- Manylion priodol ar gyfer ffenestri, drysau a saernïaeth newydd.
- Graddfa, ymgasgliad a deunydd adeiladau ac estyniadau newydd.
- Ystyriaethau parcio, arwynebau, plannu ac ecolegol.

4.3.4 Gan ddefnyddio'r arfau uchod a thrwy ymgynghori (gweler isod) cynyddu ymwybyddiaeth a phroffil yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygiad a newid priodol. Hynny'n cynnwys:

- Ymwybyddiaeth ymysg perchnogion a chymuned Betws-y-coed .
- Cynyddu ymwybyddiaeth a (gyda chefnogaeth yn y dyfodol) sgiliau contractwyr a chrefftwyr lleol.

4.4 Cynaliadwyedd a Gwella Amgylcheddol

4.4.1 Mae dogfen ar gael sy'n darparu canllawiau ar y ffordd iawn o wneud gwelliannau amgylcheddol, a'r caniatadau fydd eu hangen, yn Ardaloedd Cadwraeth Eryri, sef: **Advice on Energy Efficiency Measures in Conservation Areas** *(Planning & Practical Guide).*

4.4.2 Mae gan Fetws-y-coed gyfleoedd naturiol ar gyfer cynhyrchu gyda micro-bŵer. Cafodd offer cynhyrchu micro-hydro ei osod yn ddiweddar fel prosiect arbrofol o dan y cynllun Dŵr Uisce yn Nhŷ Mawr Wybrnant. Mae cynigion ar gyfer cynlluniau eraill hefyd, ond heb eu gweithredu hyd yma. Mae cynllun dan ystyriaeth ar gyfer Ffos Anoddun, ychydig tu allan i'r pentref.

4.4.3 Dylid cefnogi ac annog cynlluniau i gynhyrchu ynni cynaliadwy lle nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth.

4.5 Bioamrywiaeth

4.5.1 Mae coed yn hanfodol bwysig i fioamrywiaeth ac o bwys yn aesthetig. Mae amrywiaeth o goed wedi'u diogelu gan orchmynion cadw coed (gweler 8.3). Mae coed eraill wedi'u nodi fel rhai o bwys yn yr ardal gadwraeth (gweler 4.3).

4.5.2 Credir y gellid ystyried rhoi gorchmynion gwarchod ar y coed yn y fynwent, y coed yw yn bennaf, a'r rhai o gwmpas grîn y pentref.

4.5.3 Mae cyfle sylweddol i wella bioamrywiaeth yn yr ardal gadwraeth, a dyma enghreifftiau o beth ellid ei wneud:

- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun i reoli blychau.

- Gellir gwella cynefinoedd bywyd gwyllt trwy wneud defnydd priodol o doeau glaswellt a nodweddion adeiledig eraill ar estyniadau neu adeiladau newydd, lle bo hynny'n briodol i'r dreftadaeth adeiledig.
- Rheoli a gwella gwrychoedd.
- Diogelu coed yn ystod gwaith adeiladu.
- Peidio ymyrryd, er mwyn caniatáu i goed aeddfedu.
- Gadael pren marw sy'n sefyll a chreu tomenni o bren marw ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall.

4.5.4 Sicrhau bod datblygiad yn digwydd ar sail gwybodaeth am, ac mewn cydymdeimlad gydag, ardaloedd cymeriad unigryw'r Ardal Gadwraeth a'i fod yn cymryd i ystyriaeth dystiolaeth arall o gymeriad hanesyddol a sensitifrwydd tirwedd yr ardal o gwmpas.

4.5.5 Sicrhau bod cynigion datblygu'n gwella'r diddordeb bioamrywiaeth ac amrywiaeth daearegol.

4.5.6 Gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau gweithrediad prosiectau i wella'r dirwedd a chreu a gwella cynefinoedd sydd o werth ar gyfer cadwraeth natur.


4.5.7 Annog bod datblygiad yn cynnwys mesurau i gyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth gyffredinol yr ardal.

4.5.8 Gwella isadeiledd gwyrdd mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal, heb gael effaith niweidiol ar fioamrywiaeth yr ardal neu gymeriad yr ardal gadwraeth.

4.6 Ymgynghoriad

4.6.1 Fe ymgynghorwyd fel a ganlyn ar yr Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth Drafft:

- Rhagfyr 2021 gyda Chyngor Cymuned Betws-y-Coed. Cytunwyd ar yr adeg honno y dylid cynnig ymestyn y ffin i gynnwys Pont y Soldiwr.



Estyniad Arfaethedig i'r Ardal Gadwraeth
1:5000 ar A4

51 Diwygiad arfaethedig i Ffin yr Ardal Gadwraeth (© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

Atodiadau:

Atodiad A - Ffynonellau

Dyma'r prif ffynonellau gwybodaeth o ddeunydd wedi'i gyhoeddi a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r Gwerthusiad hwn:

Bennett, J. & Vernon, R. W. (1992), *Mines of the Gwydyr Forest (Rhan 4)* (cyhoeddi'n breifat)

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan Gymdeithas Archeolegol Cymru yn 1917)

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester) Hall, W. (1881),

Gwyn, D *Welsh Slate: the Archaeology and History of an Industry (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru 2015).*

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (GAT), adroddiad rhif 1026 (Voelcker, A & Robertson, A)*, Betws-y-coed Drafft Arfarniad Ardal Gadwraeth*, 2012.

Hall, E. Hyde (1811), *A Description of Caernarvonshire (1809–11) (cyfrol 1952).*

Haslam, R., Orbach, J. & Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, Llundain)

Hughes H & North H. L. *'The Old Churches of Snowdonia' (1924).*

Jones, G. R. (1998), *Hafodlas Slate Quarry* (Caernarfon) Jones, I. W. (1972) *Betws–y–coed: The Mountain Resort*

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (Llundain)

Lord, P. (1998), *Clarence Whaite and the Welsh Art World: The Betws–y–coed Artists' Colony, 1844–1914* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth) Lynch, F. (1995), *Gwynedd* (Gwasg Ei Mawrhydi, Llundain)

Pennant, T. (1781), *The Journey to Snowdon* (Llundain) Pugh, E. (1816), *Cambria Depicta (cafwyd mynediad trwy gyfrwng*

Quartermaine, J., Trinder, B. and Turner, R. (2003), *Thomas Telford's Holyhead Road: The A5 in north Wales* (Cyngor Archaeoleg Brydeinig, Adroddiad Ymchwil 135)

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (Llundain)

Smith, B. & Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (Gwasg Ei Mawrhydi) 1961.*